**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif (Cy. )

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) (Diwygio) (Cymru) 2001

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) 1989 ("Rheoliadau 1989") mewn perthynas â Chymru.

Diwygir Rheoliad 4 o Reoliadau 1989 er mwyn tynnu’r cyfeiriad at ysgol a gynhelir â grant (sef categori o ysgol nad yw’n bod mwyach).

Diddymir Rheoliad 8 fel nad oes gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mwyach gymeradwyo darparu tir ac adeiladau newydd sy’n golygu gwaith adeiladu neu newidiadau i dir ac adeiladau presennol mewn ysgol, sefydliad addysg bellach neu uwch neu hostel ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

Mae’r diddymiad yn tynnu’r angen am gymeradwyaeth o dan y Rheoliadau yn unig ac nid yr angen am unrhyw gymeradwyaeth neu gydsyniad arall o dan unrhyw ddeddfiad arall.

Gwnaed diwygiadau tebyg ar gyfer Lloegr gan Reoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) (Diwygio) (Lloegr) 2001 (O.S. 2001/692).

OFFERYNNAU STATUDOL

2001 Rhif (Cy. )

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) (Diwygio) (Cymru) 2001

*Wedi'u gwneud 2001*

*Yn dod i rym 1 Ionawr 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 218(7) a 232(5) a (6) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988() ac adrannau 544 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996() ac sydd bellach wedi'u breinio yn y Cynulliad().

1. — Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) (Diwygio) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Ionawr 2002.

    1. Maent yn gymwys mewn perthynas â Chymru yn unig.

2. Diwygir Rheoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) 1989**(ch)** fel a ganlyn -

    a. yn rheoliad 4(1)(a) yn lle'r geiriau ", a special school not so maintained or a grant-maintained school" rhowch y geiriau "or a special school not so maintained"; a

    b. diddymir rheoliad 8.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ()

Dyddiad

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol